# Lladd da byw gartref: Canllawiau ar y gyfraith yng Nghymru ac yn Lloegr – rheoliadau enseffalopathïau sbyngffurf trosglwyddadwy

Y gofynion cyfreithiol a chanllawiau ar gyfer lladd da byw gartref o dan y Rheoliadau Enseffalopathïau Sbyngffurf Trosglwyddadwy.

## Rheoliadau enseffalopathïau sbyngffurf trosglwyddadwy

Mae'r rheoliadau Enseffalopathïau Sbyngffurf Trosglwyddadwy (TSE) yn gymwys lle bynnag y caiff anifail sy'n agored i TSE ei ladd. **Mae hyn yn cynnwys lladd gartref.**

Gr?p o glefydau dirywiol angheuol yr ymennydd yw TSEs, sy'n effeithio ar anifeiliaid a phobl fel ei gilydd. Maent yn cael eu hachosi gan brionau, sef ffurfiau annormal o broteinau sy'n gallu sbarduno clefyd. Mewn gwartheg, cyfeirir at TSE fel enseffalopathi sbyngffurf buchol (BSE), neu 'glwy'r gwartheg cynddeiriog', ac mewn defaid a geifr, cyfeirir ato fel clefyd y crafu (neu 'scrapie' yn Saesneg). Mae Deunydd Risg Penodedig (SRM) yn cyfeirio at y rhannau o wartheg, defaid a geifr sydd fwyaf tebygol o gario heintusrwydd os yw'r anifail wedi'i heintio â TSE. Mae'n hanfodol bod SRM yn cael ei dynnu o gadwyni bwyd pobl ac anifeiliaid a'i ddinistrio i ddiogelu iechyd y cyhoedd ac anifeiliaid.

Ar ôl lladd gwartheg, defaid neu eifr, rhaid tynnu, staenio a chael gwared ar yr SRM yn unol â Rheoliad (CE) Rhif 999/2001 (y cyfeirir ato o hyn ymlaen fel y Rheoliad TSE) a Rheoliad (CE) Rhif 1069/2009 ar sgil-gynhyrchion anifeiliaid (y cyfeirir ato o hyn ymlaen fel y Rheoliad ABP).

Mae rhestr lawn o SRM, ynghyd â'r gofynion staenio, yn Atodiad C.

Rhaid cael gwared ar SRM mewn ffatri rendro neu losgi categori 1 cymeradwy, a gellir gweld manylion y rhain ar y dudalen Ffatrïoedd gweithredu sgil-gynhyrchion anifeiliaid: safleoedd cymeradwy ac yn Atodiad A.

Yn ogystal â chael gwared ar SRM, rhaid i'r gwartheg canlynol brofi'n negyddol am BSE o hyd cyn bwyta'r cig:

- gwartheg iach dros 30 mis oed, a gaiff eu lladd i'w bwyta gan bobl, a aned yn Rwmania, Bwlgaria a phob gwlad y tu allan i'r UE
- gwartheg dros 48 mis oed a gaiff eu lladd mewn argyfwng (hynny yw, anifail sydd fel arall yn iach sydd wedi cael damwain/anaf sy'n ei rwystro rhag cael ei gludo i'r lladd-dy)
- gwartheg dros 24 mis oed a gaiff eu lladd mewn argyfwng a aned yn Rwmania, Bwlgaria a phob gwlad arall y tu allan i'r UE
- gwartheg o bob oed sy'n dangos arwyddion o BSE. Rhaid rhoi gwybod am y gwartheg hyn hefyd gan fod BSE yn glefyd hysbysadwy

Os oes angen prawf BSE ar yr anifail sydd i'w ladd, dylech gysylltu â safle samplu BSE cymeradwy i wneud y trefniadau profi. Mae rhagor o wybodaeth sy'n manylu ar yr holl safleoedd samplu BSE cymeradwy ar gael ar wefan yr Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a Phlanhigion (APHA).

Dim ond os yw’r prawf BSE yn negyddol y dylid bwyta cig o’r anifail. Os yw’r prawf yn bositif, rhaid cael gwared ar y carcas a phob rhan o’r corff fel sgil-gynnyrch anifeiliaid categori 1 (SRM). Rhestrir y manylion cyswllt perthnasol er mwyn cael cyngor ar brofion BSE a gwaredu sgil-gynhyrchion anifeiliaid yn Atodiad A.

Mae’r rheoliadau TSE domestig yn caniatáu i awdurdodau lleol benodi arolygwyr i orfodi’r ddeddfwriaeth a rhoi pwerau i arolygwyr fynd i mewn i safleoedd, atafaelu unrhyw garcas neu ran o garcas a chael gwared arno yn ôl yr angen. (footnote 1) Fel arall, gall arolygwr gyflwyno hysbysiad i’r perchennog sy’n ei gwneud yn ofynnol iddo gael gwared arno.

1. Rheoliadau Enseffalopathïau Sbyngffurf Trosglwyddadwy (Cymru) 2018 / Rheoliadau Enseffalopathïau Sbyngffurf Trosglwyddadwy (Lloegr) 2018 (fel y’u diwygiwyd)